# Y defnydd a wneir o dacsis

17 Gorffennaf 2013

**Cais am Wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 3 Gorffennaf, pan wnaethoch ofyn,

*Faint o arian a wariwyd ar dacsis gan staff y Cynulliad Cenedlaethol ac Aelodau'r Cynulliad dros y pedair blynedd ariannol ddiwethaf? Rhestrwch yr Aelodau ar ffurf tabl o hawlwyr, os gwelwch yn dda.*

Mae'r wybodaeth yn y tabl isod yn dangos faint o arian a wariwyd ar dacsis ar gyfer staff Comisiwn y Cynulliad dros y pedair blynedd ariannol ddiwethaf.

| **2009/10** | **Cost** |
|---|---|
| Costau tacsis ar gyfer staff y Comisiwn | £2,893.32 |
| | |
| **2010/11** | |
| Costau tacsis ar gyfer staff y Comisiwn | £1,553.59 |
| | |
| **2011/12** | |
| Costau tacsis ar gyfer staff y Comisiwn | £1,781.06 |
| | |
| **2012/13** | |
| Costau tacsis ar gyfer staff y Comisiwn | £3,617.53 |

Caiff unrhyw dreuliau a ysgwyddwyd ac a hawliwyd gan Aelodau'r Cynulliad, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â chostau teithio fel costau tacsis, eu cyhoeddi ar y System Cyhoeddi Lwfansau (sydd ar gael yma: http://www.cynulliadcymru.org/memhome/pay-expenses-financial-interests-standards/mem-expenses-2.htm).

Gellir rhannu'r wybodaeth hon fesul Aelod Cynulliad a/neu fesul mis neu flwyddyn yr ysgwyddwyd y treuliau, a gellir hidlo'r canlyniadau ymhellach yn

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8635
E-bost: Buddug.Saer@cymru.gov.uk

erbyn y math o lwfans neu dreuliau. Mae angen i hawliadau am dreuliau gael eu cyflwyno o fewn tri mis o'u hysgwyddo a chaiff hawliadau o'r fath eu cyhoeddi'n awtomatig ar ddydd Gwener gwaith olaf bob mis, dri mis wedyn.

Roedd ail ran eich cais yn gofyn yn benodol am gael y wybodaeth hon ar ffurf tabl o hawlwyr. Mae'r elfen hon o'ch cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, sy'n eithrio gwybodaeth sydd eisoes o fewn cyrraedd rhesymol drwy ddefnyddio dulliau eraill.
Gan ddefnyddio'r linc uchod, gellir trin a thrafod y data heb fawr o ymdrech, a hynny er mwyn eu hail-fformadu yn unol â'r ffurf benodol a nodwyd yn eich cais. Felly, ni fyddwn yn darparu'r wybodaeth honno ar wahân.

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi ei gyhoeddi ar ein gwefan ar http://www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhaglenni**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch Cais am Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth yn gywir yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm. Rhowch wybod i mi os hoffech gael copi caled o'r cod.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad isod:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth / Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhaglenni**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**